Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Department for Economy, Science and Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

16 Ionawr 2017

Annwyl Mr Ramsay

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr sy'n cynnwys ymholiadau pellach ynghylch Kancoat.

Nid oedd cynllun busnes Kancoat yn ddibynnol ar un cyflenwr. Roedd yn seiliedig ar gael ei rannu hanner a hanner rhwng deunydd haenu a gyflenwyd gan gwsmeriaid a dur haenu a brynwyd gan Kancoat yn uniongyrchol.

Ar 15 Awst 2013, cododd Gweinidogion Cymru ddau dâl fel gwarant i Lywodraeth Cymru; tâl sefydlog yn erbyn y llinell haenu a thâl cyfnewidiol yn erbyn yr holl asedau eraill fel rhan o'r cytundeb benthyciad. Mae'r costau hyn yn parhau i fod yn ddyledus ac os bydd asedau Kancoat yn cael eu gwerthu, bydd Llywodraeth Cymru yn adennill rhan o'i buddsoddiad. Fel rhan o gynllun busnes Kancoat i gefnogi eu cais am gyllid, gwerth y busnes oedd £5 miliwn yn ôl asiantaeth brisio annibynnol (GVA). Roedd digon o wahaniaeth rhwng y prisiad â'r buddsoddiad ac roedd yn parhau'n gyfredol. Roedd y prisiad at ddibenion gwarant banc yn seiliedig ar werth y busnes ar y farchnad. Comisiynwyd prisiad arall o'r ased ym mis Medi 2014 a oedd yn nodi gwerth o £3.13 miliwn, eto yn fwy na buddsoddiad Llywodraeth Cymru. Derbynnir y gallai prisiad annibynnol fod wedi cael ei gynnal.

Ni ystyriwyd sut y bu i Fryngwyn gau yn 2001 pan adolygwyd cynllun busnes Kancoat, hynny oherwydd yr amser a oedd wedi mynd heibio. Fodd bynnag, ystyriwyd sut y bu i Dafarnaubach gau yn 2012. Roedd y broses cau hon yn rhan o ymarfer ailstrwythuro a chafodd rhai cynhyrchion a gynhyrchwyd yno eu symud i ffatrïoedd ar gyfandir Ewrop. Rydym yn deall y gwnaed y penderfyniad yn bennaf fel rhan o'r rhaglen resymoli, sef cyfuno ffatrïoedd a chael gwared ar safleoedd eraill a oedd, o ganlyniad, yn ddiangen. Roedd y penderfyniad i gau yn cefnogi cynllun busnes Kancoat, gan nad oedd unrhyw gynhyrchwyr stribedi lacr mawr yn y DU ac roedd bwlch yn y farchnad i Kancoat allu cynhyrchu batsys llai o gynnyrch pwrpasol gydag amseroedd arwain byrrach.

Yn gywir

**Mick McGuire**
Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 061 5691
mick.mcguire@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk